

Gwers 7 – Jacob yn twyllo

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Genesis 25: 19–34, 27: 1–45

Jacob yw un o gymeriadau mwyaf diddorol y Beibl; neilltuir bron i chwarter llyfr Genesis i gofnodi hanes tad y bobl etholedig. Priododd Isaac â Rebeca, chwaer Laban, yntau yn nai i Abraham. Pan ymatebodd Abraham i alwad Duw arhosodd un gangen o'r teulu ym Mesopotamia ac yno y canfu Isaac a Jacob eu gwagedd.

Oherwydd bod Rebeca yn amhlantadwy gweddiodd Isaac dros ei wraig a chafwyd ei bod yn feichiog. Pryderai Rebeca am yr hyn oedd yn digwydd yn ei chroth ac aeth i ymofyn â'r Arglwydd, a dywedodd yr Arglwydd, "Dwy genedl sydd yn dy groth, a gwahenir dau lwyth o'th fru, bydd y naill yn gryfach na'r llall, a'r hynaf yn gwasanaethu'r ieuengaf.' (Genesis 25:23). Dechreuodd yr ymrafael rhwng Jacob ac Esau, ei efail, yn y groth (Genesis 25:22). Enwyd y cyntaf i gael ei eni yn Esau, oherwydd roedd 'yn goch, a'i holl gorff fel mantell flewog.' Ystyr Esau yw 'blewog', ac ystyr Edom, ei enw arall, yw 'coch'. Yn dynn ar sawdl Esau ganwyd yr ail efail, 'a'i law yn gafael yn sawdl Esau, am hynny galwyd ef Jacob.'

O'r cychwyn cyntaf roedd gelyniaeth rhwng y ddau frawd; Esau yr heliwr blewog, gwallt goch, byr ei dymer; Jacob y twyllwr cyfrwys, y cynllwynwr dichellgar, dyn y strategaethau. Y cynllwyn cyntaf oedd sicrhau'r enedigaeth-fraint (Genesis 25:27–34). Y mae'r ail gynllwyn yn waeth o lawer (Genesis 27:1–29). Tra'r oedd Esau yn hela, gyda chymorth ei fam, Rebeca, llwyddodd Jacob i dderbyn bendith ei dad dall. Gwisgodd Jacob groen gafr am ei ddwylo a'i wegil, ac er iddo dybio mai llais Jacob a glywai, twyllwyd Isaac gan y dwylo blewog a bendithiodd ei fab ieuengaf. Unwaith y rhoddid y fendith, ni ellid ei thynnu'n ôl; nid oes rhyfedd fod Isaac wedi ei gyffroi yn ddirfawr. Golygai'r fendith y byddai Jacob yn 'Arglwydd ar dy frodyr, ac ymgrymed meibion dy fam iti' (Genesis 27:29). Cythruddwyd Esau i'r graddau iddo ddweud, '... lladdaf fy mrawd Jacob.'

Teg yw gofyn pam yr oedd Duw'n ymddwyn mor ffafriol tuag at Jacob, yn newid ei enw i Israel a'i benodi'n dad y bobl etholedig, ac yntau'n gymaint o dwyllwr? Nid oes dim yn yr hanes sy'n awgrymu fod Duw'n cymeradwyo gweithredoedd Jacob. Dioddefodd Jacob am ei bechodau – cafodd y twyllwr ei dwyllo gan ei ewythr, Laban. Yn dilyn twyllo ei dad a'i frawd rhaid oedd iddo ddianc a byw'n alltud, ac achosodd y gwahanu oddi wrth ei frawd loes iddo.

Ond nid dyna'r diwedd, oherwydd yn hanes Jacob dangosir cyfiawnder Duw ar waith, ond cyfiawnder wedi ei drochi mewn cariad a gras ydyw. Er ei ymddygiad cywilyddus yn twyllo ei dad a'i frawd caiff Jacob ail gyfle. Efallai fod gennym ddarlun o Dduw yn anfon tân a brwmstan i gosbi troseddwr, ond y mae hefyd yn achubwr ac yn adferwr. Duw barn ydyw ond rhydd gyfle i bob un i ddechrau o'r newydd – anfonodd Iesu, fel y gallwn ddyfod ato a dweud 'sori'.

Priodi

Roedd priodasau yn yr hen ddyddiau yn dra gwahanol i briodasau modern. Yn nyddiau'r Beibl, arferai rhieni ddewis partner cymwys i'w mab neu ferch, fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd heddiw. Roedd dyweddiad yn debyg i gytundeb cyfreithiol gyda'r briodferch yn cael ei 'phrynu' am bris – math o iawndal i dad y ferch am golli aelod defnyddiol a gwerthfawr o'r teulu. Roedd gweddi'n chwarae rhan amlwg yn y broses o sicrhau gwraig i Isaac (gweler Genesis 24). Atebwyd y weddi cyn i'r gwas orffen gweddi'o gydag ymddangosiad Rebeca. Cytunodd y ferch i ddychwelyd gyda'r gwas a phriodi Isaac.

Genedigaeth-fraint

Mae Genedigaeth-fraint yn thema amlwg yn y Beibl – yn enwedig hawliau'r cyntaf anedig neu'r mab hynaf. Ar farwolaeth y tad, rhennid yr eiddo rhwng y meibion a oedd dal yn fyw, gyda'r mab hynaf yn cael y rhan fwyaf (Deut. 21:17). Yr oedd cyfrifoldebau ychwanegol yn dod i'w ran, megis gofalu am ei fam neu chwirydd ddibriod. Yn arferol nid oedd merched yn etifeddu eiddo'r tad, oni bai nad oedd meibion yn para'n fyw. Gellid colli'r enedigaeth-fraint pe byddai ymddygiad mab yn wael. Gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint i Jacob am gawl ffacbys a bara (Genesis 25:29–34).





Twylodd Jacob ei dad drwy esgus mai ef oedd Esau, ei frawd hŷn.
Rhoddodd groen gafr ar ei freichiau er mwyn esgus ei fod yn flewog.
Fedri di ganfod Esau'n cuddio yn y llun hwn?

Darlenn Genesis 27:1-35.

Gwers 7 – Jacob yn twyllo

Jacob ac Esau | Genesis 25, 27

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 34



Gwers 7

Jacob yn twyllo

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed

Jacob yn twyllo tud 34

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7 oed

Jacob yn chwarae tric tud 34

BEIBL LLIW STORI DUW

Esau a Jacob tud 24

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y brawd drwg tud 18

BEIBL LLIW Y PLANT

Esau a Jacob tud 46

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Jacob ac Esau tud 30

BEIBL BACH I BLANT

Jacob yn dianc tud 66

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Twyll Jacob tud 36

BEIBL LLIW Y TEULU

Jacob ac Esau tud 26

I ddechrau

Gêm:

Yr athro yn twyllo.

Bydd angen i'r athro gyflwyno 3 'ffaith' amdano'i hun; dwy sy'n wir a'r drydedd heb fod yn wir, e.e. 'Rydw i'n byw yn.....'(gwir); 'mae gen i chwaer o'r enw Nel' (anwir), 'Rydw i'n hoffi siocled' (gwir). Rhaid i'r dosbarth benderfynu pa frawddeg sy'n gelwydd. A fydd yr athro yn llwyddo i dwyllo'r dosbarth?

Chwaraewch y gêm sawl gwaith.

Neu, os yw'r dosbarth yn hŷn gellir chwarae fersiwn o 'Call my Bluff' gan ddefnyddio geiriau sydd yn anghyfarwydd i'r plant, a chyflwyno diffiniadau gwir neu anwir.

Gêm Clymu Geiriau:

Mae rhai geiriau yn mynd gyda'i gilydd, e.e. ci a chath, halen a phupur. Paratowch restr. Dywedwch y gair cyntaf wrth y dosbarth gan ofyn iddynt awgrymu pa air sydd yn clymu wrtho.

Pysgodyn a

Papur a

Ceffyl a

Bara a

Te a

Mae'r hanes o'r Beibl heddiw am ddau frawd, efeilliaid. Mae eu henwau hwy wedi eu clymu hefyd – Jacob ac Esau.

Yr hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y rhestr Adnoddau. Defnyddiwch y Llinell amser hefyd.

Atgyfnerthu'r stori

Gofynnwch i'r plant am eu teuluoedd (byddwch yn sensitif), yn arbennig y plant sydd â brawd neu chwaer. Gofynnwch a ydynt yn ffraeo? A ydynt yn wahanol i'w gilydd? Ydyn nhw'n hoffi gwahanol bethau, e.e. chwaraeon, rhaglenni teledu, pynciau ysgol, bwyd.

Sut rai oedd Jacob ac Esau? Sut oedden nhw'n wahanol i'w gilydd?

Gêm: Twyllo Isaac

Bydd angen mwgwd.

Dewiswch un o'r dosbarth i fod yn Isaac a gwneud iddo/iddi wisgo'r mwgwd.

Yna rhaid i'r athro gyflwyno un o blant eraill y dosbarth gan ddweud, "Dyma...(enw plentyn)". Gall ddweud y gwir am enw'r plentyn, neu gall dwyllo 'Isaac' gan ddweud mai rhywun arall ydyw. Rhaid i 'Isaac' benderfynu beth yw'r gwir drwy deimlo pen yr un sydd o'i flaen.

Trafod:

Gofynnwch i'r dosbarth a ydynt wedi cael eu temtio i dwyllo o gwbl?

A ydynt wedi twyllo mewn arholiad?

Twyllo wrth chwarae gêm?

Twyllo drwy roi bai am rywbeth ar berson arall?

Dysgu adnod:

Mae'r Beibl yn dweud yn llyfr Diarhebion 13:5:

'Y mae'r cyfiawn yn casáu twyll.'

Ysgrifennwch yr adnod ar gardiau bach, un cerdyn ar gyfer pob rhan:

Y mae'r / cyfiawn / yn casáu / twyll.

Rhowch y cardiau wyneb i lawr ar y bwrdd a'u cymysgu. Gofynnwch i un o'r plant droi cerdyn a darllenwch y gair gyda'ch gilydd. Rhaid i'r plentyn ddweud y gair nesaf yn yr adnod. Os ydynt yn dewis y gair 'twyll', rhaid dweud y gair sydd ar ddechrau'r adnod. Wedi ymarfer fel hyn am ychydig, arweiniwch y grŵp i ddweud yr adnod i gyd ar un tro gan osod y cardiau yn eu trefn.

Gêm ychwanegol

Tipit

Dylid rhannu'r dosbarth yn dimau o 2 neu 3.

Bydd pob tîm yn ei dro yn cuddio botwm yn llaw un o'r aelodau heb i'r tîm arall weld pa law. Yna bydd aelodau'r tîm yn dal eu dwylo (wedi cau'r ddwy law yn ddwrn) o'u blaen, a rhaid i'r tîm arall ddyfalu a dewis ym mha law mae'r botwm.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Breuddwyd Jacob* yn Bethel tud.16

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A - Jacob

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 6: Jacob ac Esau

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 270

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 6: Yr Efeilliaid

Cyflwyniad 7: Jacob yn Dianc

Llyfrau Stori

Breuddwyd Jacob 99c

